**Atebion**

# Beth yw calon?

- Mae calon babi'n curo'n fwy **cyflym** na chalon oedolyn.
  Gall calon babi dan flwydd oed guro rhwng 70 a 160 curiad y funud. Mae calon oedolyn yn curo ar raddfa o tua 60 i 100 curiad y funud.

- Mae calon morfil yr un maint â **char** bach.
  Gall calon morfil bwyso cymaint â char Mini – o gwmpas 450 kilogram neu 1000 pwys.

- Mae curiad y galon yn **arafu** wrth i chi gysgu.
  Wrth i chi ymlacio, gall curiad calon person arafu i 60 curiad y funud ac weithiau hyd yn oed i 40 curiad y funud!

- Mae eistedd i law'r drwy'r dydd yn **ddrwg** i'r galon.
  Mae'n bwysig cadw'n heini er mwyn cadw'r corff a'r galon yn iach.

- Mae pobl heini **yn llai tebygol** o gael trawiad ar y galon na'r rhai nad yw'n cadw heini.
  Er bod curiad y galon yn codi wrth i chi wneud ymarfer corff, mae aros yn llonydd heb wneud unrhyw ymarfer corff yn gwneud mwy o ddrwg i'ch calon chi. Felly, mae pobl nad yw'n cadw heini'n fwy tebygol o gael trawiad ar y galon.

- Mae eich calon **yng nghanol** eich corff.
  Er efaillai eich bod yn meddwl ei bod hi ar ochr chwith eich corff chi, mae'r galon wedi'i lleoli yng nghanol eich corff o dan asgwrn y frest a'r asennau.

- Mae eich calon yn pwyso cymaint â **photel fach o sôs coch.**
  Mae calon y person cyffredin yn pwyso rhwng 200 a 425 gram.

- Mae calon dyn yn curo **yn fwy araf na** chalon merch.
  Ar gyfartaledd, mae calon merch yn curo 78 gwaith y funud, a chalon dyn yn curo 70 gwaith y funud.
- Mae pobl yn fwy tueddol o gael trawiad ar y galon **ar fore dydd Llun.**
  Mae ffigyrau'n dangos bod mwy o bobl yn tueddu i gael trawiad ar y galon rhwng 8 a 9 o'r gloch ar fore dydd Llun nag unrhyw amser arall yn ystod yr wythnos! Tybed pam?!

| Geirfa | | |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | **Disgrifiad** | **Saesneg** |
| graddfa | pa mor gyflym mae rhywbeth yn digwydd | rate |
| tebygol | yn debyg o ddigwydd | likely |
| trawiad ar y galon | y galon yn stopio neu'n blocio ac yn achosi poen | heart attack |
| ar gyfartaledd | y man canol rhwng y rhif uchaf a'r rhif isaf | on average |

## Chwilair y corff

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | A | L | O | N | Ll | A | W | T | T |
| R | R | | | | B | Y | S | N | R |
| O | T | C | L | U | S | T | | I | O |
| E | E | W | I | N | E | Dd | A | A | E |
| N | R | | | N | | | S | F | D |
| | I | | E | | | T | G | Y | A |
| C | O | R | N | E | A | R | W | G | N |
| E | A | | | | F | W | R | S | T |
| Ll | | | | | U | Y | N | Y | |
| G | W | Y | Th | I | E | N | N | A | U |